At: Swyddogion Cyfrifol

23 Awst 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan yr Adran Polisi Rheoleiddio

Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyfres o ganllawiau yr ydym wedi'u cyhoeddi ac sydd bellach ar gael ar ein gwefan. Bwriad y canllawiau yw eich helpu i gydymffurfio ag ystod o Amodau Cydnabod Safonol a datblygu a darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Canllawiau i gefnogi cydymffurfiaeth y corff dyfarnu

Gwnaethom gynnal adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol a chyhoeddi Amodau diwygiedig a ddaeth i rym o 1 Hydref 2020. Dywedodd cyrff dyfarnu wrthym, yn ogystal â diwygio geiriad yr Amodau, y byddai canllawiau hefyd yn ddefnyddiol i gefnogi cydymffurfiad parhaus.

Fe wnaethom gynnal cyfres o weminarau gyda chyrff dyfarnu trwy gydol 2020-21 a chawsom adborth defnyddiol yr ydym wedi'i ymgorffori yn y fersiynau terfynol. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau ar yr Amodau canlynol:

Amod A4: Gwrthdaro Buddiannau
Amod A6: Cynllunio Wrth Gefn
Amod A8: Camymddwyn a Chamweinyddu
Amod D6: Rheoli Newid yn Statws Cymwysterau neu Dynnu Cymwysterau yn ôl
Amod E10: Cydnabod Dysgu Blaenorol
Amod F1: Gwybodaeth am Ffioedd Cymwysterau

Canllawiau ar Gymwysterau Cyfrwng Cymraeg

Yn 2020 gwnaethom gyhoeddi strategaeth newydd, Dewis i Bawb, gan nodi ein hymrwymiad i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn datblygu canllawiau i'ch cefnogi i ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Heddiw rydym yn lansio'r canllaw cynhwysfawr hwn a gynlluniwyd i annog a chefnogi pob corff dyfarnu, p'un a ydych yn dechrau datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf, neu eisiau dysgu o arferion da, neu wella mewn rhai meysydd. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys cyfeiriadau defnyddiol a dolenni at adnoddau a chanllawiau pellach i'r rhai sydd am ddysgu mwy.

Mae'r canllawiau'n mynd drwy gylch oes datblygu, darparu, dyfarnu ac ardystio cymhwyster ac yn benodol mae'n ymdrin â meysydd fel y canlynol:

- Nodi cyfleoedd yn y system a blaenoriaethu cymwysterau;
- Y 'Cynnig Gweithredol' a dull sy'n ddysgwr-ganolog;
- Blaengynllunio gyda chanolfannau o ran eu hanghenion iaith;
- Enghreifftiau o arferion da wrth gaffael a rheoli cyfieithu;
- Sicrhau ansawdd deunyddiau asesu cyfrwng Cymraeg;
- Defnyddio technoleg mewn asesiadau cyfrwng Cymraeg; ac
- Addasiadau rhesymol ac addasu asesiadau ar gyfer dysgwyr sy'n eu cwblhau yn Gymraeg.

Gwnaethom ymgysylltu ag ystod eang o gyrff dyfarnu a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, gan gynnwys Grŵp Cynghori Arbenigwyr Pwnc, a oedd yn cynnwys llawer o sefydliadau allweddol sy'n gweithio ym maes asesu dwyieithog ac amlieithog ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Yn benodol, hoffem ddiolch i holl aelodau Grŵp Cefnogi Cyrff Dyfarnu gyda'r Gymraeg a gyfrannodd at ddatblygu'r canllawiau hyn ac yn enwedig y rhai ohonoch a gyfrannodd astudiaethau achos. Os hoffech i'ch sefydliad ymuno â'r grŵp hwn hefyd, cysylltwch â ni.

Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg

Ochr yn ochr â'r canllawiau, mae'r Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg wedi'i adolygu ac mae'n cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'n strategaeth Dewis i Bawb a'n gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Disgwylir i hyn gael ei gyhoeddi cyn bo hir hefyd.

Rydym bob amser yn croesawu adborth ac os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod, cysylltwch â polisi@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir,



Dr Rachel Heath-Davies
Pennaeth yr Adran Polisi Rheoleiddio.

To: Responsible Officers

23 August 2021

Dear Responsible Officer,

Regulatory Policy Update

We would like to update you on a suite of guidance that we have published and is now available on our website. The guidance is designed to support you in complying with a range of Standard Conditions of Recognition and with developing and delivering Welsh-medium qualifications.

Guidance to support awarding body compliance

We carried out a review of the Standard Conditions of Recognition and published revised Conditions that came into force from 1 October 2020. Awarding bodies told us that as well as revising the wording of the Conditions, guidance would also be helpful to support ongoing compliance.

We held a series of webinars with awarding bodies throughout 2020-21 and received useful feedback which we have incorporated into the final versions. We have published a suite of guidance on the following Conditions:

Condition A4: Conflicts of Interest
Condition A6: Contingency Planning
Condition A8: Malpractice and Maladministration
Condition D6: Management of the Change in Status of Qualifications or Withdrawal of Qualifications
Condition E10: Recognition of Prior Learning
Condition F1: Information on Fees of Qualifications

Guidance on Welsh-Medium Qualifications

In 2020 we published a new strategy, Choice for All, setting out our commitment to increasing the availability of Welsh-medium qualifications.

Over the last year we have been developing guidance to support you with the development, delivery and awarding of Welsh- medium qualifications. Today we are launching this comprehensive guide designed to encourage and support all awarding bodies, whether you are starting to develop Welsh-medium qualifications for the first time, or want to learn from good practice, or improve in certain areas.

The guidance also contains useful references and links to resources and further guidance for those who want to learn more.

The guidance goes through the lifecycle of developing, delivering, awarding and certifying a qualification and in particular covers areas such as the following:

- Identifying opportunities in the system and prioritising qualifications;
- The 'Active Offer' and a learner-centred approach;
- Forward planning with centres about their language needs;
- Good practice examples when procuring and managing translation;
- Ensuring the quality of Welsh-medium assessment materials;
- Use of technology in Welsh-medium assessments; and
- Reasonable adjustments and adapting assessments for learners completing them in Welsh.

We engaged with a wide range of awarding bodies and stakeholders in developing this guidance, including a Subject Expert Advisory Group, which included many key organisations working in bilingual and multilingual assessment across Wales and internationally. In particular, we would like to thank all members of the Awarding Body Welsh Language Support Group who contributed to developing this guidance and especially those of you who contributed case studies. If you would also like your organisation to join this group, then please get in touch.

Regulatory Welsh-Medium Qualifications Policy

Alongside the guidance, the Regulatory Welsh-Medium Qualifications Policy has been reviewed and is being revised to align with our Choice for All strategy and Qualified for the Future work. This is also due to be published shortly.

We always welcome feedback and should you have any queries regarding the above, please contact us at policy@qualificationswales.org.

Yours sincerely,



Rachel Heath-Davies
Head of Regulatory Policy